

Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 156 Rhif 21 Mai 25, 2023 50c.

Cerflun newydd i gofio Pantycelyn yn nhre'r Eisteddfod

Braint oedd bod yn bresennol yn Llanymddyfri ddechrau'r mis hwn i weld dadorchuddio cerflun trawiadol o waith Gideon Petersen i gofio am yr emynydd a'r bardd, William Williams Pantycelyn (1717–91).

Clerigwr Methodistaidd, awdur ac emynydd. Fe ysgrifennodd dros 800 o emynau a 90 o weithiau llenyddol amrywiol ac arloesol. Credir iddo deithio dros 80,000 o filltiroedd o amgylch y wlad i hybu'r efengyl, a hynny am ddeugain mlynedd yn ddi-dor. Yr hyn sy'n rhyfeddol yw bod emynau Pantycelyn yn cael eu canu o hyd heddi. Fe glywn eiriau ei emynau mewn oedfa ac mewn gêm rygbi, maen nhw'n cael eu canu ar emyn donau traddodiadol a hefyd mewn gwisgoedd cerddorol newydd. Onid yw hi'n rhyfeddol bod ei brofiadau e drwy ei emynau yn dal i ddylanwadu?



Croesawu Eisteddfod yr Urdd

Mae Llanymddyfri yn edrych ymlaen at groesawu'r genhedlaeth newydd o Gymry i'r dref yn ystod yr wythnos sy'n dod – ie, dyma fydd cartref Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd! Mae'n siŵr gen i y bydde Pantycelyn yn hynod o falch o wybod bod Prifwyl ein pobl ifanc yn ymweld â'i filltir sgwâr eleni. Er cynnal yr Eisteddfod wyth gwaith yn Sir Gâr yn y gorffennol, dyma'r tro cynta iddi ymweld â Llanymddyfri. Os byddwch chi'n dod i'r ardal, cofiwch alw mewn i Gapel Coffa Pantycelyn yn y dre, neu beth am daith i Gefnarthen, i Bentre Tŷ Gwyn, neu i fferm Pantycelyn? Galwch heibio hefyd i weld ei fedd ym mynwent Eglwys Llanfair-ar-y-bryn, ar gyrion y dre.

Mae paratoi mawr wedi bod ar gyfer y steddffod. Mae'n argoeli i fod yn ŵyl ragorol. Rydyn ni yn Sir Gâr wedi aros yn ddigon hir i'w chroesawu, gan iddi gael ei gohirio sawl gwaith oherwydd y pandemig. Ydy, mae Sir Gâr yn barod i'ch croesawu. Dymuniadau da i bawb sy'n cystadlu ac yn ymwneud â'r ŵyl ym mhob ffordd.

Gweld ein hunain yn y cerflun

Os ydych yn ymweld â'r steddffod cofiwch alw hefyd i weld cerflun newydd Pantycelyn ynghanol y dre. Mae wedi ei wneud allan o ddrur di-staen- ac wrth syllu arno, fe welwch eich adlewyrchiad ynddo, byddwch yn edrych ar eich hunan rhwng dyfyniadau o waith yr emynydd. A dyna un peth a oedd yn nodweddiadol am Williams Pantycelyn – edrych ar ei gyflwr ei hunan a wnâi. Ac mae edrych arnom ni'n hunain ac ystyried ein cyflwr ddim yn beth drwg i'w wneud, yn wir. A falle y gwelwn ni, fel y gwelodd Williams Pantycelyn, fod angen Rhywun mwy na ni arnom i'n cynnal a'n harwain.

Beti-Wyn James

Y Pentecost



Digwydd Sul y Pentecost ar y 7fed Sul ar ôl y Pasg a 50 diwrnod ar ôl Sul y Pasg. Gŵyl Iddewig yw'r Pentecost yn wreiddiol ond nid yw yn cael ei galw yn hynny gan mae gair Groeg

yw Pentecost sy'n golygu pum deg. Geilw'r Iddewon hi yn Ŵyl yr Wythnosau neu Ŵyl y Cynhaeaf. Yn Israel roeddent yn

dathlu dau gynhaeaf yn flynyddol, un yn yr Hydref a'r ail yn ystod misoedd Mai a Mehefin. Yn yr ŵyl hon, ym mis Mai a Mehefin, roeddent yn dathlu dyfodiad ffrwyth cynnar y cynhaeaf gwenith. Mae'n addas felly mai ar y Pentecost, pan oedd yr Iddewon yn dathlu ffrwyth cyntaf y gwenith, y mae Cristnogion yn dathlu dyfodiad yr Ysbryd Glân gan mai yn ei sgil y daeth ffrwyth cyntaf yr eglwys Gristnogol. Cofiw'n mai Duw yw'r Ysbryd Glân yn cymhwyso gwaith rhyfeddol ac achubol Iesu

Ar y Pentecost dathlwn fod yr Ysbryd Glân wedi ei anfon. Cofiw'n hefyd bod yr Ysbryd Glân gyda ni bob amser. Dyma sut mae Iesu'n bresennol gyda ni. Gadewch inni feddwl am dri pheth yn gysylltiedig â'r Ysbryd.

1. Addewid o'r Ysbryd

Ar ddydd y Pentecost cyflawnwyd addewidion a roddwyd gan Dduw. Wrth addo dyfodiad yr Ysbryd yn Ioan 16 mae Iesu'n ategu hen addewidion sydd i'w gweld yn yr Hen Destament e.e. gweledigaeth yr esgyrn sychion yn Eseciel 36, Eseia 61 a Joel 2. Mae Duw yn driw i'w air ac ar y Pentecost gwiredwyd yr addewidion.

Yn Llyfr yr Actau mae'r addewidion yn cael eu cyflawni ac mae'r Ysbryd yn dod mewn grym a nerth. Y mae Duw yn driw i'w air a'i addewidion.

2. Presenoldeb yr Ysbryd

Mae'r Ysbryd yn bresennol o fewn i'r greadigaeth yn gyffredinol yn gweithredu cynlluniau Duw ac yn gweinigogaethu gras cyffredinol o fewn i ddynoliaeth. Ond yn y Testament Newydd fe'n dysgir fod yr Ysbryd yn presenoli ei hun yn arbennig ymhlith *parhad ar dudalen 2*

Penderfyniadau

Dyma'r penderfyniadau fydd yn cael eu cynnig ger bron cynhadledd cyfarfodydd blynyddol Undeb yr Annibynwyr 2023.

1. Gwarchod hawliau dynol

Mae Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn datgan yn ddiamwys bod yr hawl i brotestio'n ddi-drais yn gonglfaen sylfaenol i unrhyw gymdeithas ddemocrataidd. Trwy'r fath brotestio yma yng Nghymru y llwyddwyd i sicrhau statws a dyfodol i'n hiaith a'n diwylliant – o arwyddion ffyrdd dwyieithog i S4C.

Rydym yn gresynu bod llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi pasio cyfreithiau newydd sy'n cyfyngu'n sylweddol ar yr hawl i brotestio trwy rymuso pwerau'r heddlu a rhoi'r hawl i'r llysoedd i gosbi protestwyr yn llym.

Cyfeiriwn at Ddeddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfryd a Llysoedd (2022) a'r Ddeddf Drefn Gyhoeddus (2023). Mae'r cyfreithiau hyn y rhoi'r hawl i'r heddlu arestio person ar fypwy – nid yn unig am waeddi slogan neu ddal poster, ond ar amheuaeth fod y person yna, o bosib, yn mynd i brotest. Fe all 'cynllwynio' i drefnu protest bellach fod yn drosedd.

Credwn fod y deddfau'n newid y berthynas rhwng y wladwriaeth a'i ddinasyddion, ac ystyriwn eu bod yn gamau peryglus sy'n erydu'r hawl i fynegi barn ac i ymgyrchu dros faterion o gonsyrn gwirioneddol mewn cymdeithas, yn ein gwlad ac yn y byd.

Rydym yn rhagweld y bydd pobol yn ofni protestio'n ddi-drais, rhag ofn iddynt gael dirwy drom neu garchar. O dan y deddfau newydd, fe allai person gael cyfnod hirach o garchar am ymosod ar gerflun nac am ymosod ar berson arall. Petai'r deddfau yma'n bod bryd hynny, byddai aelodau Cymdeithas yr Iaith a brotestiodd trwy rwystro'r traffig ar bont Trefechan wedi wynebu cyfnod mewn carchar am 'achosi niwsans cyhoeddus.' Sylwn fod y diffiniad cyfreithiol o beth sy'n 'niwsans neu'n aflonyddwch cyhoeddus' yn un eang iawn, gan gynnwys y sŵn allai gael ei gynhyrchu gan brotest.

Cytunwn â barn llawer bod y deddfau hyn yn groes i'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (Erthygl 10 ac 11) sy'n gwarchod y rhyddid i fynegi barn a'r hawl i ymgynnull. Nodwn fod Volker Türk, Uwch Gomisiynydd y

Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Dynol, wedi dweud bod y deddfau newydd 'yn anghydnaws â rhwymedigaeth ryngwladol y DU ynghylch hawliau pobl i ryddid mynegiant a chynulliad heddychlon.' Ychwanegodd eu bod yn 'gosod sancsiynau troseddol diangen ac anghymesur ar bobl sy'n trefnu neu'n cymryd rhan mewn protestiadau heddychlon.'

O ystyried hyn oll, mae'r Undeb yn cytuno y dylid:

- Pwysu ar unrhyw lywodraeth newydd allai ddod i rym ar ôl Etholiad Cyffredinol i ddiddymu'r deddfau hyn ar fyrder;
- Annog yr heddlu i fod yn ofalus iawn am sut y maent yn defnyddio'r pwerau newydd;
- Annog y llysoedd i gydnabod yr hawl i brotestio'n heddychol trwy beidio â bod yn llawdrwm ar ddiffynyddion.

Cynigydd: Alun Lenny

Eilydd: Parchg Emyr Gwyn Evans
Cyflwynir y cynnig ar ran Cyfundeb Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin

2. Trafodaeth gydenwadol ar werthiant eiddo

Yr ydym fel eglwysi Cyfundeb Annibynwyr Meirion yn galw ar Undeb yr Annibynwyr Cymraeg i gydweithio ar fyrder gyda'r enwadau anghydfurfiol eraill yng Nghymru i ddwyn perswâd ar y Comisiwn Elusennau i dderbyn nad y pris uchaf o reidrydd sydd i gael ei dderbyn wrth i adeiladau perthynol i eglwys gael eu rhoi ar y farchnad, ond ei bod yn iawn rhoi sylw i fanylion gweithredoedd yr eglwys a gweithredu yn unol â dymuniad yr aelodau presennol.

Cynigydd: Parchg Euron Hughes

Eilydd: Ifan Alun Puw
Cyflwynir y cynnig ar ran Cyfundeb Meirion

3. Cenhadu

Yn ystod yr argyfwng ysbrydol difrifol sy'n digwydd ar hyn o bryd o'n cwmpas ac yn ein plith, ac sy'n debygol o waethygu yn ystod y blynyddoedd nesaf, hoffem annog Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, a'r holl eglwysi, i weithredu ar fyrder trwy:

- weddi'o'n daer ar i'r Arglwydd drugarhau wrth genedl y Cymry

Y Pentecost – parhad

pobl Dduw ac yng nghalon pob Cristion. Yr Ysbryd sy'n galw'r eglwys i fodolaeth ac yn galw pobl i ffydd yn Iesu. Nid hap a damwain ydym fel eglwysi ond rhan o gynllun Duw ac y mae'r Ysbryd gyda ni ac ynom ni. Meddai Iesu wrth y disgyblion, 'Os ydych yn fy ngharu i, fe gadwch fy ngorchmynion i. Ac fe ofynnaf finnau i'm Tad, ac fe rydd ef i chwi Eiriolwr arall i fod gyda chwi am byth, Ysbryd y Gwirionedd.' (Ioan 14:15-18) Fel Cristnogion pan gredwn yn Iesu mae Duw yn rhoi ei Ysbryd inni mewn ffordd arbennig.

Os yw Ysbryd yr hwn a gyfododd Iesu oddi wrth y meirw yn cartrefu ynoch, bydd yr hwn a gyfododd Grist oddi wrth y meirw yn rhoi bywyd newydd hefyd i'ch cyrff marwol chwi, trwy ei Ysbryd, sy'n ymgartrefu ynoch chwi.

Rhufeiniaid 8:11

3 Gwaith yr Ysbryd

Yn Ioan 16 mae Iesu'n pwysleisio mai rhan hanfodol o waith yr Ysbryd Glân, yw tynnu ein sylw ni ato Ef yn barhaus. Meddai, 'Bydd ef yn fy ngogoneddu i, oherwydd bydd yn cymryd o'r hyn sy'n eiddo i mi ac yn ei fynegi i chwi.' Mae cymaint o bethau yn y bywyd hwn sy'n ein harwain oddi wrth Iesu ac ar ddisberod. Daw'r Ysbryd â ni yn ôl yn barhaus i garu, addoli a gwasanaethu'r Arglwydd bendigedig. Llawnhewch a dathlwch, mae'r Ysbryd gyda ni.

- ymbil am dywalltiad adnewyddol o'r Ysbryd Glân fydd yn dod a phobl newydd i ffydd yn Iesu Grist ac yn codi to newydd o arweinyddion ifanc
- ymroi, ar lawr gwlad, i genhadu'n lleol, gan sicrhau mai lledaenu'r Efengyl sy'n cael y flaenoriaeth yn ein holl weithgarwch
- barhau i annog cenhadu, a chynnal breichiau ein gilydd yn y gweithgarwch hwnnw, fel sydd eisoes yn digwydd drwy'r cynllun Arloesi a Buddsoddi.

Cynigydd: Parchg Iwan Llewelyn Jones, Borth-y-gest

Eilydd: Parchg Ddr Alun Tudur, Caerdydd

Cyflwynir y cynnig fel aelodau personol

Yr Adran Gydenwadol

Cofeb newydd i'r Pêr Ganiedydd mewn pryd i groesawu Eisteddfod yr Urdd i Lanymddyfri

Daeth y daith o geisio sicrhau cofeb deilwng i William Williams, Pantycelyn, yn ei dref ei hun yn Lanymddyfri i ben ar 5 Mai eleni wrth i gofeb newydd hardd gael ei dadorchuddio yno. Cyflawnwyd y seremoni gan Cecil Williams, un o ddisgynyddion Pantycelyn, a'i wraig, Cynthia, sydd yn parhau i fyw a ffermio ym Mhantycelyn, Pentre Gwyn, gerllaw Lanymddyfri.

Cafwyd pnawn i'w gofio wrth glywed canu emynau o waith y Pêr Ganiedydd gan Gôr Meibion Lanymddyfri ac anerchiadau ar arwyddocâd ac apêl fyd-eang gwaith William Williams gan yr Athro E. Wyn James a'r Hybarch Randolph Thomas, Cadeirydd Cyngor Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Roedd dathlu mawr fod hyn wedi digwydd cyn i Eisteddfod yr Urdd ddod i'r cyffiniau am y tro cyntaf erioed ddiwedd y mis.

Handel Davies, maer y dref, sy'n adrodd yr hanes a arweiniodd at osod y cerflun yn ei le o flaen Canolfan y Gannwyll yn y dref wrth iddo groesawu pawb i'r dadorchuddio:

'Mae'n wirioneddol anhygoel bod Lanymddyfri a'r ardal wedi'u bendithio â chymaint o hanes cyfoethog ar stepen ein drws, ac mae'n deg dweud nad oes digon wedi'i wneud i ddatlu a hyrwyddo hyn dros y degawdau.

'Mae'n bleser gennyf ddweud ein bod, rhwng Cyngor Tref Lanymddyfri a Chyngor Sir Caerfyrddin, dros y blynyddoedd diwethaf wedi cymryd camau cadarnhaol tuag at gywiro hyn ac yn parhau i wneud hynny, a chyfeiriaf at arwyddion Ogod Twm Siôn Cati, placiau glas y Ficer Prichard, Banc yr Eidion Du a Gwasg y Tonn. Ond, yn ddiamau, digwyddiad heddiw yw'r enghraifft orau o hyn.

'Mae William Williams, Pantycelyn, yn eicon Cymreig ac yn cael ei gydnabod fel emynydd enwocaf Cymru ac un o ffigurau llenyddol mwyaf blaenllaw ein gwlad. Amlygir ei arwyddocâd i Gymru ac i hanes Cymru wrth weld ei gerflun yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd, sydd yn sefyll fel un o'r deg ffigur amlycaf yn hanes ein gwlad: rhai fel Dewi Sant, Hywel Dda, Gerallt Gymro a Llywelyn ein Llyw Olaf.

'Mae'n gwbl briodol felly, o'r diwedd, fod gennym gerflun teilwng i ddatlu statws William Williams, Pantycelyn, yma yn ein tref. Mae wedi bod yn daith chwe blynedd, a ddechreuodd yn 2017 yn ystod blwyddyn dathlu 300 mlynedd ers geni William Williams, Pantycelyn, pan fu rhywfaint o brotest gan ymwelwyr wrth iddynt geisio ymweld â bedd y gŵr mawr.'



Cofeb newydd Pantycelyn



Handel Davies, maer Lanymddyfri, yn llongyfarch y cerflunydd, Gideon Petersen

Bryd hynny, aeth Aled Gwyn Job ati i lunio deiseb ar-lein i geisio sicrhau cofeb i Bantycelyn yn y dref a chasglwyd miloedd o lofnodion yn gyflym iawn. Er gwaethaf sawl cyfarfod, aflwyddiannus fu'r cais i sicrhau arian gan Lywodraeth Cymru a sawl sefydliad arall, ond yn ffordus iawn, daeth Cyngor Tref Lanymddyfri i'r adwy.

Derbyniodd Gideon Petersen, cerflunydd a gof sy'n gweithio yn sir Benfro, y gwahoddiad i ymgymryd â'r prosiect. Gideon a'i frawd, Toby, oedd yn gyfrifol am lunio'r cerflun godidog o Lywelyn ap Gruffydd Fychan ger y castell yn Lanymddyfri.

'Llwyddwyd i sicrhau caniatâd cynllunio i leoli'r cerflun yn union gerllaw'r Gannwyll, adeilad yr amgueddfa a'r Porth Ymwelwyr, sydd i gyfrif ein bod yn gallu sefyll yma heddiw,' ychwanegodd Handel Davies. 'Rwy'n siŵr y bydd yn denu miloedd i'w weld yn ddiweddarach y mis hwn pan fydd Eisteddfod yr Urdd yn cyrraedd Lanymddyfri am y tro cyntaf erioed.'

Mae gwahoddiad wedi ei estyn inni graffu'n fanylach ar y cerflun a gwerthfawrogi'r gelfyddyd sy'n plethu geiriau a nodau cerddorol, gan gyfleu eu cyflwyno'n aberth pêr o gân a moliant i'r Arglwydd y rhoddodd y Pêr Ganiedydd ei hun i'w wasanaeth yn ŵr ifanc, 21 oed.

Pantycelyn a'r Pentecost

Bydd yr Eglwys Gristnogol yn dathlu ei phen-blwydd ar y Pentecost y Sul hwn a bydd Eisteddfod ein plant a'n pobl ifanc yn dathlu eu creadigrwydd a'u doniau yn agos at gartref Pantycelyn. A bydded inni weddio y bydd yr un Arglwydd yn rhoi syched yng nghalonau cenhedlaeth newydd o bobl ifanc i brofi ei gariad a'i ras a chyflwyno'u:

... nwydau fel cantorion,
oll i chwarae'u bysedd cun
ar y delyn sydd yn seinio
enw Iesu mawr ei hun. (*Caneuon Ffydd*, 704)

Arglwydd, danfon dy leferydd
heddiw yn ei rwysg a'i rym;
dangos fod dy lais yn gryfach
nag all dyn wrthsefyll ddim;
cerdd ymlaen, nefol dân,
cymer yma feddiant glân.
(*Caneuon Ffydd*, 578)

William Williams (1717–91)

H.P.-D.

“Bydd un genhedlaeth yn dweud wrth y nesaf” – trafodaeth ar efengylu i wahanol genedlaethau yng ngŵyl Llanw



Mae pob un ohonom wedi ein siapiro i ryw raddau gan y byd o'n cwmpas – gan ein ffrindiau a'n teuluoedd, diwyllianau'r dydd, digwyddiadau hanesyddol, datblygiadau mewn technoleg ac ati. Oherwydd y dylanwadau ffurfiannol yma, mae ymchwilwyr yn tybio fod yna wahaniaethau mawr rhwng pobl a anwyd mewn cyfnodau gwahanol, a bod hyn wedyn yn ymddangos fel gwahaniaethau yn ein gwerthoedd, ein credoau a'n barn, oherwydd i ni weld y byd drwy fydolwg gwahanol.

Efallai eich bod yn gyfarwydd â'r term Saesneg *Baby boomers*; dyna'r genhedlaeth a anwyd rhwng oddeutu 1946 ac 1964. Dyma i chi genhedlaeth o weithwyr caled oedd yn tueddu i aros yn yr un swydd am gyfnod hir, pobl oedd yn safio cyn prynu, wedi eu hysgogi'n gryf gan gyfrifoldeb a dyletswydd.

Yna, daw Cenhedlaeth X, a anwyd rhwng oddeutu 1965 ac 1981. Yn wahanol i'r genhedlaeth o'u blaen, mae'r genhedlaeth yma'n hapus i newid swydd os nad yw'r cyflogwr yn un da, neu os ydy'r gwaith yn effeithio ar eu bywydau personol. Credir eu bod yn bobl hyblyg ac anffurfiol, pobl sy'n gwybod pwysigrwydd cael balans rhwng bywyd gwaith a'u bywyd cymdeithasol. Mae'r genhedlaeth hon yn cofio bywyd cyn ymosodiad 9/11.

Ganwyd y *Millennials* rhwng oddeutu 1982 a 1994. Mae'r rhyngwyd yn hollbwysig i'r genhedlaeth hon; maent hefyd yn cyfathrebu dipyn drwy negeseuon tecst a WhatsApp. Mae'r genhedlaeth hon yn awyddus i dderbyn buddsoddiad personol ac yn debygol o adael swydd os nad ydy'r swydd yn eu datblygu nhw'n bersonol.

Ar ôl y *Millennials* daw Cenhedlaeth Z, a anwyd rhwng oddeutu 1995 a 2012. Dyd y'r genhedlaeth yma ddim yn cofio bywyd cyn 9/11 ac maen nhw wedi byw drwy gyfnodau economaidd anodd. Dyma genhedlaeth y cyfryngau cymdeithasol, ac mae hunaniaeth (beth bynnag y bo) yn beth pwysig iddynt. Fe'i dilynir gan Genhedlaeth Alfa, a anwyd rhwng oddeutu 2013 a 2025.

Yng ngŵyl Llanw eleni, cafwyd cyfle i wrando ar banel o oedolion ifanc yn eu harddegau a'u hugeiniau yn trafod y sialensau a'r cyfleoedd sydd yna wrth iddynt fyw yn ddisgyblion i Iesu Grist. Trafodwyd y perygl o gyffredinol a defnyddio ystrydebau wrth



Sian yn arwain yr addoliad yng Ngŵyl Llanw gyda Meilyr Geraint, Rhodri Darcy, Rhys Huws a Phil Wyman.

drafod gwahanol genedlaethau, a sut roedden nhw'n meddwl fod pobl eraill yn disgrifio'u cenhedlaeth nhw. Dyma'r ystod oedran fu'n astudio ar gyfer arholiadau Lefel A neu radd yn ystod y pandemig, ac fe drafodwyd yr effaith gafodd hyn ar iechyd meddwl eu cenhedlaeth, a'r unigrwydd o orfod hunanynysu a chael eu haddysgu gartref. Dau beth ddaeth i'r amlwg dro ar ôl tro oedd pwysigrwydd cymuned a chael ffrindiau da o bob oedran. Pwysleiswyd pwysigrwydd cael cyfle i drafod materion cyfoes y dydd o fewn cymuned ddiogel yr eglwys, yn lle troi at y 'byd' am atebion, yn enwedig ar faterion sy'n perthyn i hunaniaeth, rhywedd a rhywioldeb. O ran rhannu eu ffydd, soniodd y panel am rôl a phwysigrwydd gweddi, sut maent yn gwneud ffrindiau, a sut maent yn rhannu'n barchus am Iesu gydag eraill.

Bwriad y seminar oedd agor trafodaeth am y gwahaniaethau sydd yna rhwng pobl o wahanol oedranau am fod hyn yn medru effeithio ar y ffordd rydym yn byw a bod, sut rydym yn meithrin perthynas efo'r Arglwydd, sut rydym yn efengylu, a'r ffordd 'dan ni'n trefnu ein hoedfaon. Mae'n bwysig ein bod ni'n cydnabod fod yna wahaniaethau o fewn ein cynulleidfaoedd, a bod hyn ddim yn rhywstr ond yn gyfle i ddod i adnabod ein gilydd yn well, a'n bod ni'n medru cydweithio wrth rannu ein ffydd gydag eraill.

Sian W. Rees

Gofalaeth Bro Morgannwg

Gwahoddir ceisiadau ac ymholiadau cyn ddiwedd Mehefin 2023 oddi wrth weinidogion ordeiniedig neu dan hyfforddiant sydd â diddordeb i fod yn weinidog llawn amser ar Ofalaeth Bro Morgannwg, sef Eglwys Annibynnol Gymraeg y Barri ac Eglwys Annibynnol Gymraeg Bethel, Penarth.

Am fanylion, cysyllter ag Alwena Harries, Ysgrifenyddes Bethel.
Ffôn: 02920 700272
Symudol: 07891 587373
e-bost: alwenaharries@gmail.com

ADNABOD

Cymeriadau'r Hen Destament

ABRAHAM

Cyfes o astudiaethau gan y Parch. Meirion Morris ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Abraham* gan Gareth Lloyd Jones.

25 Y Duw sy'n ddigonol (rhan 2)

Darllen: Genesis 18:1-15

(Gweler hefyd *Dehongli Bywyd Abraham*, gan Gareth Lloyd Jones, Pennod 18)

Wedi edrych ar yr hanes yr wythnos ddiwethaf o safbwynt y lletygarwch sy'n dod â bendithion annisgwyl, y tro hwn mi wnawn ystyried cynnwys y digwyddiad ychydig yn fwy manwl. Mae'r adnod gyntaf yn dweud yn glir pwy sy'n ymweld: 'Ymddangosodd yr ARGLWYDD i Abraham'. Ac fel yng ngweddill ein Beiblau, mae'r defnydd o briflythrennau'n ein hatgoffa mai enw Duw, Yahweh, sy'n cael ei grybwyll. Er bod Abraham yn cyfeirio ato fel 'farglwydd' yn adnod 3, mae'n amlwg mai araf oedd Abraham i ddeall hynny. Anodd bod yn siŵr a oedd y bwyd a ddarparwyd yn y diwedd, y wledd frenhinol yma'n arwydd ei fod yn sylweddoli bod y gwesteion yn fwy na phobl gyffredin. Ond mae'n glir fod Abraham wedi sylweddoli hyn yn ddiweddarach.

Gyda golwg ar y wledd ei hun, gan fod Abraham eisoes wedi ei berswadio am yr addewid ac wedi enwaedu'r bechgyn fel arwydd ei fod yn credu Duw, tebyg mai gwledd oedd hon i gadarnhau ffydd Sarah. Tebyg nad oedd hi wedi dod i'r un fan, a phwy a wŷr nad anallu Abraham oedd hynny. Beth bynnag, mae'r lletygarwch cyffredin a hael yma'n troi'n wledd gyfamodol, gwledd, fel ein Cymundeb ni, sy'n ein hatgoffa am addewidion cyfamodol Duw. Mae 'bwyta', yn ôl Ioan 6:56, yn arwyddo credu, yn arwyddo ffydd yn Iesu, ac yn hynny mae Paul yn galw pob un ohonom i'w 'holi ei hunan, ac felly bwyta o'r bara ac yfed o'r cwpan' (1 Corinthiaid 11:28).

O ran Sarah, mae'r addewid yn anghredadwy: 'Yr oedd Abraham a Sara yn hen, mewn gwth o oedran, ac yr oedd arfer gwragedd wedi peidio i Sara. Am hynny, chwarddodd Sara ynddi ei hun, a dweud, "Ai wedi imi heneiddio, a'm gŵr

hefyd yn hen, y caf hyfrydwch?" (11-12) Tebyg ei bod wedi clywed am yr addewid gan Abraham (17:15-21), ond mae Duw, drwy'r wledd hon, am sefydlu ei addewid, ei gyfamod o fewn perthynas, perthynas sy'n cael ei gweld yn glir o amgylch y bwrdd. Ar waethaf hynny, ei hymateb yw chwerthin 'ynddi ei hun'. Ond nid yw hynny'n guddiedig oddi wrth yr Arglwydd. Roedd hon, oedd i fod yn fam i genedl, i frenhinoedd, yn mynd i fod yn fam i Dafydd. Mae hwnnw yn ei dro yn adrodd am Dduw yn Salm 139: 'ARGLWYDD, yr wyt wedi fy chwilio a'm hadnabod. Gwyddost ti pa bryd y byddaf yn eistedd ac yn codi; yr wyt wedi deall fy meddwl o bell; yr wyt wedi mesur fy ngherdded a'm gorffwys, ac yr wyt yn gyfarwydd â'm holl ffyrdd. Oherwydd nid oes air ar fy nhafod heb i ti, ARGLWYDD, ei wybod i gyd' (1-4).

Roedd Hagar eisoes wedi dysgu hyn ac yn cydnabod hynny wrth enwi'r mab yn Ismael, y Duw sy'n gwybod. Mae Ioan yn ein hatgoffa: 'oherwydd y mae Duw yn fwy na'n calon, ac y mae'n gwybod pob peth' (Ioan 3:20). Ac felly'r awdur at yr Hebraeid: 'Nid oes dim a grëwyd yn guddiedig o'i olwg, ond y mae pob peth yn agored ac wedi ei ddinoethi o flaen llygaid yr Un yr ydym ni i roi cyfrif iddo' (Hebraeid 4:13). Dyma'r Duw sydd erioed wedi gorfod dyfalu, erioed wedi ei synnu gan ddim.

Yng ngeiriau A W Tozer:

Gŵyr Duw ar unwaith ac yn ddiymdrech bob mater a'r holl faterion, pob meddwl a meddwl pawb, pob ysbryd a pob un ysbryd, pob bod a phob un bod, pob creadigaeth a phob un creadur, pob amrywiolyn a phob lluosogrwydd, pob cyfraith a phob deddf, pob perthynas, pob achos, pob meddwl, pob dirgelwch, pob enigma, pob teimlad, pob dymuniad, pob cyfrinach, pob gorsedd ac arglwyddiaeth, pob personoliaeth, pob peth gweledig ac anweledig yn y nef a'r ddaear, mudiant, gofod, amser, bywyd, marwolaeth, da, drwg, nefoedd, ac uffern.

Os yw Duw yn 'gwybod', fe all Duw 'wneud'; ac felly nid yw ymateb ffydd yn ddim ond

cydnabod y ffaith nad oes dim yn amhosibl, yn anodd i Dduw. A dweud y gwir, gellir cyfieithu'r ymadrodd 'A oes dim yn rhy anodd' fel, 'a oes dim yn anghredadwy', neu 'yn rhy ryfeddol'. Dyma'r union air sy'n cael ei ddefnyddio fel un o'r disgrifiadau o Iesu yn Eiseia 9:6 - 'Cynghorwr rhyfeddol'. Yn Luc 1:34-5, mae Mair yn holi: "Sut y digwydd hyn, gan nad wyf yn cael cyfathrach â gŵr? Atebodd yr angel hi, "Daw'r Ysbryd Glân arnat, a bydd nerth y Goruchaf yn dy gysgodl." Er mai cenhedliad naturiol fyddai cenhedliad Isaac, fel yn achos Mair, 'nerth y Goruchaf' oedd yn gwneud yr hyn oedd yn ymddangos fel peth amhosibl yn bosibl i Abraham a Sarah.

Er bod hwn yn ddigwyddiad dieithr i ni, ac mewn sawl ystyr yn ddigwyddiad eithriadol, mae'n ddigwyddiad sy'n ein hatgoffa o'r hyn sy'n wir am ein gorffennol ni, ac am ein dyfodol. Meddyliwch am gwestiwn Nicodemus ac ateb Iesu: "Sut y gall neb gael ei eni ac yntau'n hen?" ... Atebodd Iesu: "Yn wir, yn wir, rwy'n dweud wrthy, oni chaiff rhywun ei eni o ddŵr a'r Ysbryd ni all fynd i mewn i deyrnas Dduw ... Paid â rhyfeddu imi ddweud wrthy, "Y mae'n rhaid eich geni chwi o'r newydd" (Ioan 3:4-5,7) Mae pob Cristion yn gwybod am 'gael ei eni', ac wrth edrych ymlaen, yn edrych ar gael eu geni eto i fywyd atgyfodedig: 'Yn wir, yn wir, rwy'n dweud wrthy fod amser yn dod, yn wir y mae yma eisoes, pan fydd y meirw yn clywed llais Mab Duw, a'r rhai sy'n clywed yn cael bywyd' (Ioan 5:25).

1. Beth am Dduw ac am ei addewidion sydd yn gwneud ei air a'i addewid yn 'anghredadwy' i chi?
2. Mae nifer o eglwysi bellach yn gwneud llawer o'i gwaith ymestynnol, fel cyrsiau Alffa ayyb, dros bryd o fwyd. Sut mae diogelu ein bod yn creu perthynas gyda'r nod o gyflwyno pobl i berthynas â Duw?
3. 'Mae Duw yn gwybod popeth ac yn cofio popeth, ac eithrio pechod ei blant.' Sut mae hollwybodaeth Duw pob gras yn ein cadw ni rhag pechod, ond yn ein cadw ni hefyd rhag condemniad pechod?

S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol
28 Mai – Sulgwyn

Bydd Nia Roberts yn encilfa Ffald y Brenin ym Mro Preseli i nodi carreg filltir bwysig yn y calendr Cristnogol, y Sulgwyn. A chawn fwynhau perfformiad hudolus gan Elaine Llwyd.

Caniadaeth y Cysegr
Sul, 28 Mai, am 7:30yb

Rhaglen o emynau William Williams, Pantycelyn, ar drothwy Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd

Sul, 28 Mai, am 12:00yp

Pantycelyn – Vaughan Roderick a'i chwaer Sian sy'n ceisio dysgu rhagor am William Williams, Pantycelyn

Sul, 28 Mai, am 4:30yp

Oedfa Eisteddfod yr Urdd, Llanymddyfri

I weld y cyhoeddiad digidol Cenn@d yn llawn, dilynwch y ddolen hon: www.cennad.cymru

(Cyhoeddir Cenn@d ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteriaid Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

COFIWCH JOHN PENRI!

Mae 29 Mai yn ddydd i gofio John Penri, sy'n cael ei gydnabod fel 'y merthyr Annibynnol cyntaf.' Cafodd ei eni yn ffermdy Cefn-brith, ar bwys pentref Llangamarch, gerllaw Llanwrtyd, Powys. Mae'r adeilad bellach wedi ei gofrestru'n Gradd II* gan Cadw. Fe wnaeth Penri adael Cymru'n ddyf ifanc i gael addysg yng Nghaergrawnt ble daeth o dan ddylanwad Piwritaniaeth. Roedd yn feirniadol iawn o'r eglwys wladol oherwydd ei diffyg gofal bugeiliol, ac fe gyhoeddodd lyfrau yn Saesneg yn beirniadu Eglwys Loegr yn llym am



fethu darparu mwy o bregethu trwy gyfrwng y Gymraeg. Ymhlith y rhai o'i eiddo a argraffwyd gan wasg anghyfreithlon roedd *An exhortation unto the governours and people of Wales* (1588), oedd yn galw'r esgobion yn 'the butchers and stranglers of the souls of my dear countrymen.'

Bryd hynny, fel y gwelwyd eto ar ddydd coroni'r brenin Charles yn nefod *exclusive* Eglwys Loegr, yr un oedd y frenhiniaeth a'r eglwys.

Trwy feirniadu'r eglwys wladol, roedd John Penri hefyd wedi troseddi yn erbyn y frenhiniaeth, sef Elizabeth I, a fu'n gyfrifol (yn eironig braidd) am orchymyn trosi'r Beibl i'r Gymraeg – Beibl a gyhoeddwyd yr un flwyddyn â llyfr Penri. Bu'n rhaid i John Penri ffoi



O Ysbryd byw, dylifa drwom,
bywha dy waith â grym y groes.
O Ysbryd byw, tyrd, gweithia ynom,
cymhwysa ni i her ein hoes.

i'r Alban, ond ar ôl dychwelyd i Loegr cafodd ei fradychu gan yr offeiriad Stepney, ei daflu i garchar a'i gyhuddo o dan y Ddeddf Unffurfiaeth o fod yn deynfradwr.

Dedfryd greulon

John Whitgift, Archesgob Caergaint, oedd y cyntaf i arwyddo'r ddogfen yn dedfrydu John Penri i farwolaeth. Roedd Whitgift yn uchel-eglwyswr, yn elyniaethus iawn tuag at y Piwritaniaid, ac yn eu trin gydag anoddefgarwch eithafol. Bu Penri'n ddraenen yn ei ystlyers rhai blynyddoedd, ac mae'n amlwg ei fod yn fwy na pharod i'w ddedfrydu. Cafodd John Penri ei grogi ar frys ar 29 Mai 1593 ar yr amser anarferol o bedwar o'r gloch y prynhawn, heb gael cyfle i apelio'r ddedfryd nac i weld ei wraig Eleanor na'i bedair merch fach. Roedd yn 29 oed.

Parchu Penri?

'Nôl yn 2008, yng Nghyfarfodydd Blynyddol yr Undeb yn Abertawe, fe wnaeth Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin gyflwyno penderfyniad yn gofyn i'r Undeb i alw ar Eglwys Loegr i ymddiheuro am eu rhan yn nhranc John Penri. Gan mai'r Cymro hynod ddeallus a sensitif hwnnw Rowan Williams oedd Archesgob Caergaint bryd hynny, tybiwyd bod siawns go dda y byddai'n barod i fynegi edifeirwch ar ran Eglwys Loegr er mwyn gwella craith anghyfiawnder.

Ond nid oedd hen ysbryd radical Annibynnol yn bresennol yn yr Undeb yna, ac fe rwystrwyd yr ymdrech trwy basio 'penderfyniad amgen' cyffredinol am erledigaeth grefyddol. O ganlyniad, ni roddwyd y cyfle i Eglwys Loegr i edifarhau am eu rhan yn nienyddiad John Penri. Ers hynny, fe ddaeth hi'n arferiad cyffredin i alw ar sefydliadau i edifarhau am eu camweddau hanesyddol. Yn eu plith mae Eglwys Loegr, sydd wedi ymddiheuro am eu rhan mewn caethwasiaeth. Ac yn 2014 fe wnaeth Undeb yr Annibynwyr ei hun 'ymddiheuro o waelod calon' am ran ein rhagflaenwyr yn recriwtio pobl ar gyfer y Rhyfel Byd Cyntaf.

Felly gyfeillion, os ydym yn wirioneddol barchu John Penri, oni ddylem ddangos gronyn bach o ruddin y gŵr o Gefn-brith trwy wahodd y sefydliad a fu'n bennaf gyfrifol am ei erlid i ddangos edifeirwch? Os ddim, maddeuwch i mi am ofyn – beth yw gwerth ein 'cofio'?

Alun Lenny

Barn Annibynnol

Cof cenedl, cof ffydd

Yn ddiweddar fe ges i dipyn o sioc wrth siarad â rhywun a fagwyd yn y traddodiad efengylaidd, wrth iddi ddweud wrtha i fod yr Efengylau yn gwbl ddibynadwy fel dogfennau ffeithiol/hanesyddol am eu bod nhw fel erthyglau newyddion a ysgrifennwyd yn ystod bywyd Iesu, a hynny gan bedwar o'i ddilynwyr agosaf oedd yn y fan a'r lle. Doedd hi prin yn gallu fy nghredu pan ddwedais i fod yr Efengylau wedi eu hysgrifennu dros gyfnod estynedig o genhedlaeth a dwy genhedlaeth ar ôl gweinidogaeth Iesu. Daeth hi'n ôl ataf wedyn gan ddadlau hyd yn oed os oedden nhw genhedlaeth neu ddwy yn hwyrach, mi fydden nhw'n gwbl gywir fel dogfennau hanesyddol achos roedd pobl yn y dyddiau hynny yn cadw pethau ar gof cymaint gwell na phobl heddiw, am nad oedd trwch y boblogaeth yn llythrennog.

Datblygu dysg


Fel un a weithiodd ym myd ysgolion ac addysg dros y 40 blynedd ddiwethaf roedd yn syndod i mi am flynyddoedd cyn lleied o ymdrech a wnaed gan y byd addysg i ddeall datblygiadau niwro-seicoleg ac astudiaethau o waith yr ymennydd dynol a'n systemau mewnol o brosesu gwybodaeth, deall a chofio. Af mor bell a dweud i rai pobl ein gwawdio fel ysgol chwarter canrif yn ôl pan ddechreuodd nifer o'n staff geisio gwneud defnydd o wybodaeth feddygol a seicolegol am sut y mae plant ag oedolion yn datblygu eu dysg.

Seicoleg ac anthropoleg

Rwy'n tybio fod syndrom tebyg yn bodoli o fewn y gymuned ffydd. Tybiaf fod llawer o'n cyd-Gristnogion yn credu bod straeon yr efengylau am Iesu yn adroddiadau llygaid-dystion, ac o'r herwydd yn hanesyddol ddibynadwy. Ond o wybod nad fel hyn roedd pethau, mae'n gwbl resymol i ddefnyddio ymchwil o feysydd seicoleg, anthropoleg a chymdeithaseg i archwilio sut y gallai'r traddodiadau llafar a deinameg atgofion grŵp fod wedi rhoi siâp ar yr efengylau sydd wedyn wedi eu pasio lawr i ni drwy'r oesau.

Llygaid-dystion

Rwy wedi cael boddhad mawr yn ddiweddar o ddarllen gwaith ymchwil Bart D. Ehrman a'i lyfr *Jesus Before the Gospels*. Yno, mae'n canolbwyntio ar y bwch degawdau rhwng pryd roedd Iesu'n byw a phryd y dechreuodd y dogfennau amdano ymddangos. Mae Ehrman yn dadansoddi beth y gall gwybodaeth am seicoleg, niwroleg a



deinameg cof torfol ddweud wrthym am sut y datblygodd y Testament Newydd. Mae cymdeithasegwyr wedi profi bod cof cyfunol grŵp yn cael ei siapio'n gryf gan y materion a'r pryderon sy'n gwasgu ar y gymuned honno lawn cymaint ag y mae'n cael ei lywio gan y digwyddiadau eu hunain. Mae arbenigwyr ar dystiolaeth llygaid-dystion mewn llys barn wedi gallu dangos sut y mae'r 'ffeithiau' a adroddir yn gwbl ddidwyll gan lygaid-dystion mor aml yn ffitio'r naratif ehangach y maen nhw, yn ddarwybod iddyn nhw eu hunain, wedi ei datblygu ar ôl y digwyddiad y maen nhw'n tystio amdano.

Cryfhau hanfod fy ffydd

Bydd rhai, rwy'n siŵr, am ddweud bod darllen nonsens fel hyn yn tansailio hygredd ein ffydd. Fodd bynnag, yr hyn y mae'n ei wneud i mi yw cadarnhau cryfder y naratif am Iesu. Efallai bod yna liwio, gorliwio, ychwanegu elfennau o hen broffwydoliaethau, a hyd yn oed elfennau ffantasi Star Wars-aid, ond mae'r cymhelliad yn hanfodol bwysig. Roedd yr Iesu hwn yn werth ysgrifennu amdano, ac yn werth ei wisgo gyda phob delwedd o arbenigrwydd, ardderchogrwydd a sancteiddrwydd sy'n bosib ei wneud. Mae ysgolheigion fel Ehrman, yn herio ffeithioldeb hanesyddol yr Efengylau a'r hyn maen nhw'n ei ddweud wrthym am yr Iesu hanesyddol. Maen nhw hefyd yn codi

cwestiynau am y ffordd rydyn ni'n darllen ac yn meddwl am y testunau sanctaidd, a hyd yn oed sut rydyn ni'n deall hanes a hyd yn oed sut mae cof ein cenedl ni yn gweithio. Ond mae'r profiad o ddarllen a deall gweithiau sgeptigol fel hyn yn un sy'n cryfhau hanfod fy ffydd, ac rwy'n ddiolchgar iawn amdany'n nhw.

Geraint Rees

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

Gofalaeth Bro Morgannwg

Gwahoddir ceisiadau ac ymholiadau cyn diwedd Mehefin 2023 oddi wrth weinidogion ordeiniedig neu dan hyfforddiant sydd â diddordeb i fod yn weinidog llawn amser ar Ofalaeth Bro Morgannwg, sef Eglwys Annibynnol Gymraeg Y Barri ac Eglwys Annibynnol Gymraeg Bethel Penarth.

Am fanylion, cysyllter ag Alwena Harries, Ysgrifenyddes Bethel.
Ffôn: 02920 700272
Symudol: 07891 587373
E-bost: alwenaharries@gmail.com

CYFUNDEB GORLLEWIN MORGANNWG

(Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

Noson yng nghwmni'r Parchg Dyfrig Rees, yr Ysgrifennydd Cyffredinol



Capeli a'n Cyfrifoldebau

Cyflwyniad dwyieithog i eglwysy'r Cyfundeb a chyfle i drafod cyfrifoldebau aelodau, swyddogion ac ymddiriedolwyr, gofal eiddo a gweinyddiaeth a materion sy'n poeni eglwysi lleol.

BETHEL, PENCLAWDD, SA4 3FP
Nos Fercher, 31 Mai, 2023 am 7 o'r gloch

Parcio ger Neuadd y Gymuned. Bydd cymorth ar gael i gyrraedd Bethel. Te a chyfle i gymdeithasu wedi cyfarfod.

Gwybodaeth bellach: Gareth Richards, Ysgrifennydd (07775 274575) neu Christian Williams, Cadeirydd (07531 309018)

Croeso

Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:

Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
Ffôn: 02920 490582
E-bost: aluntudur@btinternet.com

Golygyddion

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
Ffôn: 01766 513138
E-bost: IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
Ffôn: 01267 232577 /
0781 751 9039
E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk

Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:

Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
Ffôn: 01792 795888
E-bost: undeb@annibynwyr.cymru

Dalier Sylw!

Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan
Bwyllgor Llywio'r Adran
Gydenwadol ac nid gan Undeb yr
Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a
wneio Golygyddion Y Tyst ddim â
chynnwys yr Adran Gydenwadol.

Rhaglen Y Cyfarfodydd Blynyddol Cyfundeb Dwyrain Dinbych a Fflint 2023

Oni nodir yn wahanol cynhelir y cyfarfodydd yn Y Stiwt, Rhosllannerchrugog

DYDD MERCHER, 28 Mehefin 2023

- 1.30 CYNHADLEDD 1 ***
Cadeirydd: Y Llywydd, Parchg Beti-Wyn James
Defosiwn yng ngofal y Parchg Aled Lewis Evans
- 2.00** Ymddiheuriadau am absenoldeb
Cyflwyno Adroddiad Undeb Gorrlewin Caerfyrddin 2022
(y Llyfr Gwyrdd)
Croesawu/ethol Trysorydd newydd yr Undeb *
Croesawu darpar-Lywydd newydd yr Undeb *
Croesawu Cyfarfodydd Blynyddol 2024
Eglwysi Dementia-gyfeillgar
Economi Bywyd a Newid Hinsawdd
Y Genhadaeth Ddigidol
- 3.00** Te a chacen a chroeso
Croesawu a derbyn ymwelwyr
- 4.00 'Change and Continuity – Looking back or looking ahead? A Postcolonial conversation about Mission' ***
Anerchiad gan yr Athro Anthony Reddie
Cadeirydd: Parchg Jeff Williams
- 5.30** Egwyl
- 6.00** Swper
- 7.30 CYFLWYNIAD: Beirdd ar y Ffin ***
Noson yng nghwmni beirdd lleol

DYDD GWENER, 30 Mehefin 2023

- 9.30** Defosiwn yng ngofal y Parchg Trefor Jones-Morris *
- 10.00 Cyfarfod Hanes: 'Damwain a hap, ac athrylith Richard Price (1723–91)' ***
Yr Athro Gareth Ffowc Roberts
Cadeirydd: Miss Joan Thomas
- 11.00** Te/coffi
- 11.30 Lansio Apêl Cymorth Cristnogol: Ffynhonnau Byw ***
- 12.00 CYNHADLEDD 4 ***
Cadeirydd: Parchg Beti-Wyn James
Argraffiadau'r Llywydd
Cydnabod gwasanaeth Trysorydd yr Undeb,
Miss Meryl James
Casgliad i Cymorth Cristnogol
Eryn
Trosglwyddo'r Beibl i'r llywydd newydd
Gweddi: Parchg Robin Wyn Samuel
Eryn
Y Fendith
- 1.00** Cinio ac ymadael

DYDD IAU, 29 Mehefin 2023

- 9.30 CYNHADLEDD 2 ***
Cadeirydd: Y Llywydd, y Parchg Beti-Wyn James
Defosiwn yng ngofal y Parchg Aled Lewis Evans
- 10.00** Adroddiad y Trysorydd
Adroddiad y Pwyllgor Gweinyddol
Y Tyst
Etholiadau:
• 2 i wasanaethu ar y Cyngor am 3 blynedd
• Hyd at 3 i wasanaethu ar y Pwyllgor Gweinyddol am 3 blynedd
• cyfreithiwr ac archwiliwr am y flwyddyn
- 11.00** Te/coffi
- 11.30** Adroddiad y Cyngor a'i Adrannau
- 12.00** Cynllun Hyfforddi: Carwyn Siddall, Cydlynnydd
Hyrwyddo Gweinidogaethau
Y Panel Diogelu: Julie Edwards a Sian Jones
- 1.00** Cinio
- 2.00 CYNHADLEDD 3**
Cadeirydd: Y Llywydd, Parchg Beti-Wyn James
Adroddiad yr Ysgrifennydd Cyffredinol *
Penderfyniadau:
1: Gwarchod hawliau dynol
2: Trafodaeth gydenwadol ar werthiant eiddo
3: Cenhadu
Derbyn gweddill cofnodion y Llyfr Glas
Unrhyw Fater Arall
Y Fendith
- 3.30** Te/coffi
- 4.00 Cyfarfod Heddwch ***
Mabon ap Gwynfor AS
- 5.00** Egwyl
- 5.30** Swper
- 7.30 OEDFA O FAWL** yng Nghapel y Groes, Wrecsam, *
Llywydd: Parchg Beti-Wyn James
Galwad i addoli
Eryn
Darllen: Parchg Aled Davies
Gweddi: Parchg Dr Alun Tudur
Gweddi'r Arglwydd
Casgliad i Cymorth Cristnogol
Eryn
Coffáu'r rhai a fu farw.
Gweddi: Parchg Trefor Jones-Morris
Dymuno'n dda i weinidogion a ymddeolodd
Croesawu gweinidogion newydd
Eryn
Pregeth: Parchg Iwan Llewelyn Jones
Eryn
Y Fendith

Dangosir Cyflwyniadau Cwpan Denman yn ystod y cynadleddau

* Caiff y digwyddiadau hyn eu ffrydio'n fyw ar wefan
annibynwyr.cymru